# Y DINESYDD

*PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH* TACHWEDD 1975 RHIF 25


# Dawnsio yn y Stryd!

Am y tro cyntaf erioed mae'r cymdeithasau Gymraeg wedi ymuno â'i gilydd i drefnu wythnos a hanner o ŵyl ym Mhenarth.

Dyma'r tro cyntaf i'r fath beth gael ei gynnal yn y dref ers y Rhyfel Cyntaf, pan siaredid yr iaith gan un berson allan o bob deg yn yr ardal. Er bod yr iaith Gymraeg bron â marw rhwng y Rhyfeloedd, pan na chlywid son hyd yn oed am Gymrodorion Penarth, ers y rhyfel diwethaf mae'r nifer sy'n siarad yr iaith ar gynnydd unwaith eto. Mae un person allan o bob ugain yn siarad Cymraeg yn yr ardal yn awr. Ffurfiwyd nifer o gymdeithasau lleol, a cheir ysgol Gymraeg yn yr ardal hefyd.

O ganlyniad i lwyddiant y gweithgareddau Cymraeg yn ystod Gŵyl Hâf Penarth ym mis Gorffennaf, fe benderfywyd i drefnu rhaglen arall i'w dilyn wedi i lawer o'r Cymry ddychwelyd oddi ar eu gwyliau hâf.

Er bod yr amser rhwng y ddwy ŵyl yn fyr, mae'r rhaglen sydd wedi cael ei threfnu yn eithaf uchelgeisiol. Fe gefnogir yr ŵyl gan Gymdeithas Gymraeg Penarth, Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (Cell Penarth), Cymdeithas Hanes Lleol Ardal Penarth a Chapel Bethel.

Dyma restr o'r digwyddiadau yn ystod yr ŵyl.

| | |
|---|---|
| Tachwedd 20fed | NOSON Y DYSGWYR yng Nghlwb Marconi, Larnog, yn dechrau am 9.00p.m. |
| a hefyd | NOSON WERIN gyda Gwilym Roberts a grŵp gwerin yng Nghanolfan Gymdeithasol Heol Albert, Penarth. 7.30p.m. Mynediad 30c. |
| Tachwedd 21ain | NOSON Y PLANT |
| Tachwedd 22ain | DAWNSIAU traddodiadol ar hyd strydoedd y dref yn dechrau am 2.30p.m. |
| Tachwedd 23ain | CYNGERDD yng Nghapel Bethel gan Gymdeithas Gymraeg Dinas Powys a Chôr Clwb Golff Dinas Powys am 8.00p.m. |
| Tachwedd 24ain | Sgwrs ar Grefftau Cymreig gan Mr Geraint Jenkins (Amgueddfa Werin Cymru) yn Ysgol Gynradd Fictoria am 7.30p.m. |
| Tachwedd 25ain | NOSON GOFFI gan ferched Cymdeithas Gymraeg Penarth yn Ysgol Gynradd Fictoria am 7.30p.m. |
| Tachwedd 27ain | Sgwrs ar Gymry Cymraeg Penarth 1858 - 1975 yn Ysgol Gynradd Fictoria am 7.30 p.m. |
| Tachwedd 28ain | DISCO A DAWNS gyda Josgin, Human Abstract a Mici Plwm yn yr Ystafelloedd Pajet, Heol Fictoria, am 7.30p.m. Mynediad 45c. |
| Tachwedd 30ain | CYMANFA GANU yng Nghapel Bethel, Heol Plassey, am 8.00p.m. |

Mae llwyddiant yr ŵyl yn dibynnu arnoch chi; mae yna groeso i bawb. Ceir y manylion yn llawn gan - Brian Keitch, 129 Redlands Road, Penarth; Maxwell Evans, 96 Redlands Road a Christine Watkins, 57 Redlands Road, Penarth.

## COLLED FAWR

**Tristwch enbyd i'w deulu ac i'w fyrdd cyfeillion, a cholled i Gymru gyfan oedd marwolaeth y dramodydd a'r gŵr gwâr hwnnw, Huw Lloyd Edwards, yn Ysbyty Môn ac Arfon ddiwedd mis Hydref. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w ferch Ann, sy'n byw yng Nhonteg, ac Eleri ei chwaer yn Llanuwchllyn, ac yn bennaf oll, i'w weddw, Mrs Jane Lloyd Edwards, Caernarfon.**

# Anrheg Nadolig

Bydd anrheg Nadolig i'r plant yn rhifyn mis Rhagfyr o'r *Dinesydd*, sef papur diddan yn arbennig ar eu cyfer hwy - comic Cymraeg i blant Caerdydd a'r cylch. Y gobaith yw y bydd y comic yn ymddangos yn rheolaidd bob rhyw ddeufis ar ôl hynny. Teimlwn fod hwn yn arbrawf gwerth ymgymryd ag ef - cewch chithau gyfle i farnu drosoch eich hunain fis nesaf.

**Yn anffodus, diwedd (neu ddechrau!) pob cân yw'r geiniog, ac fe fydd yn rhaid wrth arian i gynnal y fenter hon. Byddai'n amhosib rhedeg y comic ar yr un sail â'r *Dinesydd*, a'i ddosbarthu'n rhad ac am ddim; y bwriad felly yw ei werthu ar wahan i'r *Dinesydd*, gan hyderu fod yna hen ddigon o farchnad yn y cylchoedd hyn i gynnal cyhoeddiad o'r fath.**

**Wrth gwrs, bydd yn rhaid wrth ryw fath o sicrwydd ynglŷn â gwerthiant tebygol cyn gwthio'r cwch i'r dwfn a mynd ati i sefydlu'r comic ar sail reolaidd. I'r perwyl hwn, fe gynhwysir ffurflen archebu yn y rhifyn nesaf a gofynnir i bawb sy'n fodlon ymrwymo i brynu'r comic yn rheolaidd i gwblhau ffurflen a'i dychwelyd at Olygydd *Y Dinesydd*. Oni ddychwelir rhai cannoedd o'r rhain, go brin y bydd hi'n bosib mynd ati o ddifrif, felly os yw'r syniad hwn yn apelio atoch o gwbl, ewch ati a rhowch eich cefnogaeth ar bapur yn y rhifyn nesaf.**



**Frank Lincoln (Llew Llaw Gyffes) a Christine Pritchard (Blodeuwedd) yng nghynhyrchiad Theatr yr Ymylon o ddrama Saunders Lewis, BLODEUWEDD. Bu'r cwmni yn teithio'r ddrama yng ngogledd a gorllewin Cymru yn ystod yr wythnosau diwethaf, a bydd cyfle i'w gweld yma yng Nghaerdydd pan gyflwynir BLODEUWEDD yn Theatr Sherman nos Sul, Tachwedd 23ain am 7.30 o'r gloch. Bydd perfformiadau ddydd Llun 24ain a dydd Mawrth 25ain am 2.30 y prynhawn hefyd.**

# GOLYGYDDOL

Mae Siân a'i Sbectol ddeifiol wedi codi gwrychyn rhai o'n darllenwyr unwaith eto, a hynny wrth geisio helpu pobl yn hytrach na'u beirniadu, y tro hwn! Bu nifer o ŵyr a gwragedd busnes yng Nghaerdydd yn cwyno ynglŷn â'r cyhoeddusrwydd a roddwyd i rai, yn rhad ac am ddim, yng Ngholofn y Sbectol tra bod eraill wedi gwario arian sylweddol ar hysbysebu yn y papur er mwyn ennill cyhoeddusrwydd mewn dull mwy confensiynol - a diolch iddynt am wneud hynny, wrth gwrs. Byddai'n wael iawn ar y papur hwn heb gefnogaeth ei hysbysebwyr cyson.

Er hynny, y mae'r syniad o gasglu rhestr o wasanaethau drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, a chwmnïau sy'n rhoi lle amlwg i'r iaith yn eu gweithgareddau yn un da; dim ond y dull o wneud sydd hwyrach yn ddiffygiol. Rhydd rhestr o'r fath gyfle i Gymry Cymraeg gyflawni cymaint ag sy'n bosibl o'u busnes beunyddiol drwy gyfrwng y Gymraeg; mae'n gefnogaeth i gwmnïau sydd wedi derbyn yr egwyddor o roi amlygrwydd i'r Gymraeg mewn masnach - cwmnïau nas rhedir gan Gymry Cymraeg o anghenraid - i ddyfalbarhau ac ehangu eu defnydd o'r iaith; gall hefyd fod yn ysgogiad i gwmniau mwy adweithiol i newid eu meddwl ar bwnc yr iaith (Yn y cyswllt hwn, gallwn obeithio y bydd i syniadau goleuedig siop newydd cwmni Habitat yng Nghaerdydd ddylanwadu ar bolisiau gwrth-Gymraeg rhai o gewri masnachol eraill y brifddinas - Marks & Spencer, James Howells, David Morgan, Boots a Woolworth, i enwi ond ychydig - a pheri iddynt newid eu hagwedd yn sylfaenol a gweld fod ganddynt gyfrifoldeb pellach tuag at y wlad y maent yn ymelwa'n fras arni.)

Ond dyma ni wrthi eto, yn rhoi cyhoeddusrwydd braf i rai a dim i eraill. Hyn sydd wrth wraidd y gŵyn wrth gwrs, sef mai mympwyol iawn a fu'r rhestr hyd yn hyn, o reidrwydd. Ond gellir unioni'r cam hwn yn hawdd iawn - a dyna'r hyn y bwriadwn ei wneud - drwy gyhoeddi cofrestr mor gyflawn ag sy'n bosibl o gwmnïau yma yng Nghaerdydd sy'n cynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, neu sy'n rhoi lle amlwg i'r Gymraeg yn eu gweithgareddau, cyn gynted ag y bydd modd.

Gwahoddiad agored felly i *chi*, wŷr a gwragedd busnes y brifddinas, i ddanfon y manylion atom. Gobeithiwn y bydd ein darllenwyr yn dal i gyfrannu gwybodaeth ynglŷn â'r mater i'r *Dinesydd* fel y bydd pethau'n dal eu sylw, ond yn y pen draw, eich cyfrifoldeb *chi* fydd sicrhau fod eich busnes, cwmni, siop, beth bynnag y bo, yn ymddangos yng nghofrestr *Y Dinesydd*. Y bwriad yw cael y cwbl at ei gilydd erbyn diwedd mis Rhagfyr, felly danfonwch rhagblaen at: Y Golygydd, 66 Heol Maendy, Cathays, Caerdydd.

* * *

I'r cyfeiriad uchod hefyd y dylid danfon unrhyw newyddion ar gyfer y papur ac, *yn enwedig*, gwybodaeth ymlaen llaw ynglŷn â digwyddiadau yng Nghaerdydd a'r cylch. Apel at y cymdeithasau yw hon yn bennaf: mae un neu ddwy wedi danfon eu rhaglenni cyflawn ar gyfer y flwyddyn atom, a gallwn ninnau gyhoeddi'r cyfarfodydd ac ati mewn digon o amser felly, ond ni chlywsom air oddi wrth gymdeithasau eraill. Mae Calendr y papur at eich gwasanaeth chi, gapeli, gymdeithasau ac ati - ond mae'n rhaid i chi ei borthi.

* * *

Cyfeiriwyd mewn man arall at y fenter o geisio cychwyn comic Cymraeg ar gyfer plant y cylch. Gofynnwn i bawb, yn blant ac yn oedolion, i gefnogi'r fenetr hon, ac edrychwn ymlaen at ymateb enfawr i'r rhifyn cyntaf a gyhoeddir gyda rhifyn mis Rhagfyr o'r *Dinesydd*.

* * *

Un gair cyn gorffen. Person arall a fyddai'n falch iawn o glywed gan ddarllenwyr y papur yw Mr Geraint Walters, ein Trysorydd rhadlon. Yn wahanol i'r Golygydd, dydy e ddim yn gofyn am lith hir; byddai gair neu ddau ar gefn papur punt, neu bapur pum punt - neu siec, hyd yn oed - yn gwbl dderbyniol. Danfonwch air ato cyn hir, da chi, i'r cyfeiriad isod: Y Trysorydd, 29 The Rise, Llanishen, Caerdydd.

*O.N.* Dylai pob cyfraniad ar gyfer rhifyn mis Rhagfyr fod yn llaw'r Golygydd erbyn RHAGFYR 3ydd.

# O'r Post

*ANNWYL OLYGYDD,*

*Fe gofiwch imi ysgrifennu am fy nhrafferthion mewn warws ddillad arbennig wrth geisio talu fy nyledion â siec Gymraeg.*

*Nid enwais y cwmni o fwriad gan fy mod wedi anfon llythyr o brotest i bennaeth y cwmni yn Llundain. Roeddwn am wybod beth oedd ei adwaith ef cyn condemnio'i gwmni'n llwyr.*

*Yn wir, cefais ateb ffafriol iawn i'm cwyn. Dywedodd ei fod yn cytuno'n llwyr â phob gair yn fy llythyr a'i fod wedi trefnu fod y gangen ym Mhontypridd i anrhydeddu pob siec Gymraeg.*

*Felly, ddarllenwyr hynaws, telwch eich dyledion â sieciau Cymraeg. Dyna'ch hawl.*

*C. JONES (Mrs),*
*Llanishen, Caerdydd.*

*ANNWYL OLYGYDD,*

*Mae Colofn Sbectol Sian yn mentro ar hyd llwybr ansicr wrth benderfynu cyhoeddi hysbysrwydd yn rhad ac am ddim ar gyfer rhestr (sy'n un ddetholedig, o reidrwydd) o fusnesau y* dichon *y perthyn iddynt aelodau o Gymry Cymraeg; (nid oedd hyd yn oed hynny yn wir am o leiaf un busnes yn y rhestr gyntaf a gyhoeddwyd).*

*Hyderaf nad yw'r awdur yn awgrymu fod crap ar yr iaith Gymraeg, waeth mor ansylweddol, yn bwysicach nag ymarweddiad busnes cydnabyddedig.*

*HENRI Ll. DAVIES,*
*Rhiwbeina, Caerdydd.*

## Hwyl y Gaeaf

Mae Pwyllgor Cronfa'r Mil o Filoedd wrthi'n trefnu rhaglen o adloniant amrywiol ar gyfer pobl ifanc yn ystod y gaeaf, a fydd yn cynnwys dawnsfeydd a chyngherddau gwerin. Gwyliwch *Y Dinesydd* am fanylion pellach.


## CALENDR TACHWEDD-RHAGFYR

**TACHWEDD**

| | |
|---|---|
| 21 | DISGO'R AELWYD Canolfan yr Urdd |
| 23-25 | Theatr yr Ymylon BLODEUWEDD Theatr Sherman. Nos Sul 7.30p.m. Llun a Mawrth 2.30p.m. |
| 25 | Darlithiau Sain Ffagan. Catrin Davies: YN NHRAED 'I SANE 10.00a.m.-12.00p.m. |
| 30 | Cronfa'r Mil o Filoedd MÔR O GAN Theatr Sherman 8.00p.m. |

**RHAGFYR**

| | |
|---|---|
| 1 | Clwb Tŷ'r Cymry NOSON BRYNU ANRHEGION NADOLIG 7.00p.m. |
| 1 | Mudiad Merched a Mamau Cymru RHAGLEN NADOLIG Tŷ'r Cymru 3.00p.m. Croeso i bawb. |
| 2 | Darlleniadau ORIEL. EINIR WYN JONES ac ALAN LLWYD 1.00-2.00p.m. Merched y Wawr CYMORTH CYNTAF Canolfan yr Urdd 7.30p.m. |
| 7 | Cwmni Theatr Cymru IFAS Y TRYC Theatr Sherman 7.30p.m. |
| 8 | Clwb Tŷ'r Cymru CYSTADLEUAETH GERDDOROL 7.30p.m. |
| 9 | Darlithiau Sain Ffagan. Alun Davies: Eisteddfodau Tafarn y 18fed Ganrif 10.00a.m.-12.00p.m. |
| 10 | Cymdeithas Lenyddol Caerdydd BARDDONIAETH T.H. PARRY-WILLIAMS Gwyn Erfyl. Gwesty'r Parc 8.00p.m. |
| 15 | DISGO DOLIG yr Uwch Adran. Canolfan yr Urdd Clwb Ty'r Cymry SWPER NADOLIG 7.30p.m. |




# cornel y beirdd

*Cerdd yn gofyn am gael ymaelodi â Chôr Godre'r Garth*

(cyflwynwyd yn ddiweddar i'r côr ar noson i ddathlu'r fuddugoliaeth yng Nghricieth)

*Yn hwyliog gôr angylion - o'm cwmpas*
*Mae pencampwyr cyson;*
*Gwir yw, ar y ddaear gron,*
*Taeraf 'does well gantorion.*

*Y peraidd gantwyr puraf - siwr i mi*
*Leisiau'r môr hyfrytaf*
*Mewn Steddfod, ail eu dodaf,*
*Ac ar y brig, chwi gôr braf.*

*Côr i gyfeiliant Ceri - a William*
*A'i wialen wisgi*
*Fel uffarn yn bwrw arni*
*I uno torf - bant â hi!*

*Bro Ddyfed a Bro Ddwyfor - a welodd*
*William yn dygyfor -*
*Yn y dasg gwelwyd esgor*
*Ryw abal, gythral o gôr!*

*Minnau, pe cawn, ymunwn*
*Yn ŵr craff â'ch côr crwn;*
*Wyf gantwr, un shwr fel shot*
*Un tebyg i Delwyn Tibbott;*
*Wyf denor gyda'r gore*
*A llais nad oes ei well e.*
*Un afrwydd â llais anhyfryd*
*Yw Geraint Huws - guaranteed.*
*O bydew, llais Llanboidy,*
*Y mae sail i'w fottom C!*
*Un net yw Huw T. Elo*
*Ond o'i ais daw llais fel llo!*
*Fy nghred fod y Meredydd*
*Yn hel dail ar liw dydd,*
*Yn wir ni a gofiwn, Och!*
*Ei neidio yn Llandudoch*
*I'r rhyd, heb ddim anrhydedd -*
*Hen lob a fu ger gwlyb fedd!*
*Dere, Mistar Cadeirydd,*
*Ysu wyf i a'm llais fydd*
*Yn wyrthiol atgyfnerthu,*
*O ŵr doeth, dy gôr di!*
*Diau, bydd dy gôr diwyd*
*O'r corau, y gorau i gyd;*
*Deued cwpanau diarth,*
*Cânt gartre, ger Godre'r Garth*

*GWYN GRIFFITHS,*
*Tonteg.*

## Myfyrdod y Mis

**TACHWEDD Y PUMED, 1975**

**Guy Fawkes**
**neu**
**Gau Tafarnau**

PETER HUW DAVIES

### *GLAW YNG NGHAERDYDD*

*O undonedd bore llaith*
*I anobaith cyn noswaith;*
*Yna mae perl glân o wedd*
*Yn ei gwallt yn gyfaredd.*

*K.D. JONES,*
*Cyncoed, Caerdydd.*


# Cymrodorion y Barri

**Yng nghyfarfod mis Hydref fe groesawyd y darlithydd gwadd gan y Parch Gareth Watts. 'Roedd ef yn llawen fod y Gymdeithas wedi gweld yn dda i wahodd yr Athro Dafydd G. Davies, M.A. eleni. Ar Ddydd Gŵyl Ddewi 1975 fe gyhoeddwyd cyfieithiad newydd o'r Testament Newydd ac 'roedd yr Athro yn aelod o'r panel a fu'n gyfrifol amdano. 'Roedd y Gymdeithas yn ddiolchgar i'r Athro am ei barodrwydd i ddod atom i draethu at y gwaith.**

Amlinellodd y darlithydd y modd y daeth y Testament Newydd Groeg gwreiddiol i fodolaeth ac iddo ymddangos bron bedair canrif ar ôl marw Crist, ac iddo dyfu'n naturiol o angen yr eglwys. Dangosodd paham yr aeth 30 mlynedd heibio ar ôl marw Crist cyn i lên Gristionogol ymddangos o gwbl.

Cyfieithiad o Destament Newydd Groeg yr unfed ganrif ar bymtheg ydyw pob T.N. arall ac Erasmus oedd yn gyfrifol am ei gyhoeddi. Wyth llawysgrif yn unig oedd ganddo ef: erbyn hyn y mae miloedd ar gael. Fersiwn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yw'r agosaf at y gwreiddiol a chyfieithiad o hwnnw yw'r T.N.

Dangoswyd bod saith yn gyfrifol am gyfrifol am gyfieithu'r T.N. i'r Gymraeg a manylwyd ar y modd y dosbarthwyd y gwaith ymhlith y panel a'r berthynas rhwng y panel cyfieithu a'r panel llenyddol. Pwysleisiodd yr Athro nad oedd fersiwn 1975 yn disodli Beibl William Morgan ond 'roedd i'w ddefnyddio ochr yn ochr â fersiwn 1588.



# TUDALEN Y DYSGWYR

## Y Gystadleuaeth

**Mae'n bleser gennym gyhoeddi enwau'r buddugwyr yn y gystadleuaeth stori fer i ddysgwyr, o'r diwedd! Mae'n ddrwg gennym am yr oedi, ond roedd yn werth aros am y stori fuddugol, a gyhoeddir yn y rhifyn hwn. Dyma rai o sylwadau'r beirniad ar y gystadleuaeth:**

*"Dydy dysgwyr ddim yn disgwyl i neb eu llongyfarch am iddyn nhw ddysgu Cymraeg. Mae llawer ohonyn nhw'n dweud mai braint ydy cael y cyfle i feistroli'r iaith. Serch hynny, rhaid i mi longyfarch y rhai sy wedi cystadlu, ac rydyn ni'n eu hedmygu nhw'n fawr am eu dygnwch. Roedd un ohonyn nhw'n blino fod ei ymgais yn ein cyrraedd yn rhy ddiweddar - doedd dim digon o amser ganddo i weithio ar y stori fer tra roedd e'n brysur ar gwrs Wlpan!*

*"Wrth feirniadu, roeddwn i'n chwilio am ddau beth yn bennaf: stori dda, wedi ei gwisgo mewn iaith dda.... wel, nid stori dda ond stori* **fer** *dda. Ac mae 'n wahaniaeth hefyd rhwng stori fer a chronicl o ddigwyddiadau neu stori hanesyddol."*

Dyma'r buddugwyr:

1. **Y BREUDDWYD gan PEDR AP CYNON**
(Pedr McMullen, 13 Heol Sloper, Llechwedd, Caerdydd.)
2. **Y MYG gan MIHANGEL**
(Michael Worne, 37 Millbrook Heights, Dinas Powys.)
3. **NAMYN DUW gan PEDR AP CYNON**
4. **A.H. MAINE, YSW. gan RHOSYN GWYLLT**
(C.D. Hussey, 29 Three Arches Avenue, Llanishen, Caerdydd.)

Rhoddir gwobrau o werth £10, £5, £2.50 a £1.00 i'r rhain. Llongyfarchiadau iddynt, a diolch i bawb a gystadlodd. Diolch yn fawr hefyd i'r beirniad, Mr Illtyd Lewis, ac i Mr Leighton Davies a fu mor garedig â rhoi'r gwobrau. Cynhelir cystadleuaeth arall i'r dysgwyr cyn hir; gwyliwch rifyn mis Rhagfyr o'r *Dinesydd* am y manylion. Ond yn awr, y stori ei hun - BREUDDWYD. (Dylid pwysleisio fod hon wedi ei chyhoeddi yn union fel y daeth hi i law, heb ddim cywiro ar yr iaith. Gall cystadleuwyr a hoffai feirniadaeth fanylach ar eu gwaith gael hynny drwy ddanfon amlen wedi ei chyfeirio â stamp arni at: Mr Illtyd Lewis, 25 Ffordd Marlboro, Y Rhath, Caerdydd.)

## Dysgwyr Y Barri

Mae llawer wedi cael ei wneud yn y Barri yn ddiweddar ar ran y dysgwyr. Ers 1974 mae dau gwrs Wlpan wedi cael eu cynnal yn y dre - un yn ystod yr hwyr a'r llall yn y boreau - i'r mamau yn unig mae hwn! Y flwyddyn hon mae Adran Efrydiau Allanol y Brifysgol wedi darparu cwrs adolygu i ddysgwyr sydd wedi bod wrthi am ryw dair blynedd ac mae'r Awdurdod Addysg yn paratoi dosbarthiadau i ddechreuwyr ac i ddysgwyr yr ail flwyddyn. Felly mae'r rhan fwyaf o anghenion y dysgwyr i gyd yn cael eu cwrdd - beth bynnag am eu gallu!

Fe gwrddon ni am y tro cyntaf nôl ym mis Medi i wneud yn sicr bod digon o'r math iawn o gyrsiau ar gael. Fe fydd cyfarfod o'r dysgwyr i gyd yn ystod yr haf nesaf i adolygu'r flwyddyn a aeth heibio ac i baratoi gogyfer â'r un nesaf.

Mae athrawon a dysgwyr wedi dod at ei gilydd i drefnu rhaglen o nosweithiau coffi drwy'r flwyddyn pan gall dysgwyr a Chymry Cymraeg gyfarfod i sgwrsio â'i gilydd - yn Gymraeg wrth gwrs! Dyma'r rhaglen gogyfer â'r tymor hwn. Fe fyddwn ni'n cyfarfod cyn y Nadolig i drefnu rhaglen tymor y Pasg. Yn ystod eleni ac hyd at flwyddyn Eisteddfod yr Urdd yma yn y Barri, mae pawb sy'n dod i'r nosweithiau coffi yma yn talu 20 ceiniog - mae hwn yn mynd i Gronfa'r Eisteddfod.

Felly dydy'r dysgwr yn y Barri ddim yn gallu cwyno bod dim byd yn cael ei wneud ar ei ran e. Ond dydy'r dosbarth nos a nosweithiau coffi ddim yn ddigon. Fe fydd rhaid i'r dysgwr i gymryd pob cyfle i ddatblygu a defnyddio ei iaith newydd ond fe fydd rhaid iddo fe i ddibynnu ar y Cymry am bob cymorth hefyd.

Mae llawer o sefydliadau Cymraeg yn Y Barri - dwy ysgol, dau gapel, Adran Gymraeg Politechnig Cymru; cymdeithasau - Merched y Wawr, Cylch Cinio a'r Cymrodorion. Mae hi'n bwysig i'r dysgwyr, i'r iaith Gymraeg ac i fywyd cymdeithasol Cymraeg y dref eu bod nhw'n mynd i'r pethau yma ac yn cael eu cefnogi a'u croesawu er mwyn dod yn rhan gyflawn o gymdeithas Gymraeg tre Y Barri.

CLIVE MATHIAS

### CALENDR Y DYSGWYR

TACHWEDD

| | |
|---|---|
| 17 | Clwb Tŷ'r Cymry **NOSON CROESAWU DYSGWYR** gyda Billy Raybould 7.30p.m. Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon. |
| 21 | Cymdeithas y Dysgwyr **NOSON GOFFI** yng nghartref Mr a Mrs Jobbins, 115 Wellwood, Llanedeyrn. 7.30p.m. ymlaen. |

RHAGFYR

| | |
|---|---|
| 3 | **NOSON GOFFI** yng nghartref Mr a Mrs Llewelyn, 15 Coldbrook Road, Gorllewin Tregatwg (Cadoxton), ger Y Barri. |
| 4 | Cymdeithas y Dysgwyr **NOSON GOFFI** yng nghartref Gwilym Roberts, 6 Heol Wen, Rhiwbeina. 7.30p.m. ymlaen. |
| 5-7 | Cwrs penwythnos Tŷ Dyffryn - manylion oddi wrth y Warden. Cwrs penwythnos yn Llangrannog - manylion oddi wrth Gwilym Roberts. |

## *NEWYDDION*

*Mae croeso mawr i unrywun sy wrthi'n dysgu neu sy wedi dysgu Cymraeg i ymuno ag unrhyw gymdeithas Gymraeg yn y ddinas. Mae Cymdeithas fyw ac amrywiol iawn yn cyfarfod bob nos Fawrth yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Caerdydd. Rydw i'n siwr byddai llawer o ddysgwyr yn mwynhau nosweithiau fel 1 Rhagfyr - noson o brynu anrhegion Nadolig; 15 Rhagfyr - swper Nadolig; Ionawr 19 - Gyrfa Chwist ....ac ati. Dim ond 50c yw'r tal aelodaeth.*

*Mae cymdeithas gref iawn o Ferched y Wawr yn cwrdd yn fisol yng Nghanolfan yr Urdd. Mae'r Cymrodorion a'r Gymdeithas Lenyddol hefyd yn gymdeithasau sy'n rhoi cyfle i'r dysgwyr a'r Cymry Cymraeg i uno gyda'i gilydd. O son am y Gymdeithas Lenyddol, braf oedd gweld llawer o ddysgwyr yn Theatr Sherman yn mwynhau'r rhaglen deyrnged i T.H. Parry-Williams.*

*Lle poblogaidd iawn gan y dysgwyr ydy'r adeilad sy'n dechrau taflu pobl allan tua 10.30p.m. Wel, beth am orffen y limrig yma, am le o'r fath - gwobr o £1 i'r gorau. Anfonwch nhw ata'i erbyn* **Rhagfyr 1** : *J.A. Evans, 54 Fidlas Road, Llanishen.*

*I'r Conway fe es i un noson*
*I siarad Cymraeg, dyna wirion;*
*Roedd y cwrw yn dda,*
*A'r merched yn, na!!*

*JOHN ALBERT*

## Y Breuddwyd

**Roedd nerfau Gwilym yn wael iawn nawr. Roedd saith gêm gyfartal gyda fe yn barod, a roedd un gêm arall i ddod. Nid oedd e wedi ennill o'r blaen ar y "pwls", er ei fod e wedi bod yn agos mwy nag unwaith i ennill un o'r rhannau bach. Nawr, roedd e'n gorfod aros am ganlyniad y gêm rhwng Casnewydd a Chaer i weld os ydy e wedi ennill y brif wobr, yr hanner miliwn.**

Fel rheol, dechreuwyd pob gêm am dri o'r gloch, ond am Gasnewydd. Am ryw reswm ni fyddyn nhw fyth yn dechrau tan chwarter wedi tri. Roedd Casnewydd ar ben y gynghrair, a Chaer ar y gwaelod namyn un. Felly, roedd y papurau yn disgwyl Casnewydd i ennill yn hawdd. Er hynny, roedd Gwilym yn arfer dewis Casnewydd, a doedd e ddim yn gweld unrhyw reswm dros beidio â gwneud yr un peth yr wythnos hon. Ond nawr, nid oedd e'n siwr os oedd e wedi penderfynu yn iawn.

Fe siaradodd y cyhoeddwr ar y radio ymlaen mewn llais undonog iawn. Doedd dim diddordeb gyda Gwilym yn ganlyniad Tim Rygbi Caerdydd, nac yn bwy enillodd y rasau ceffylau yng Nghasgwent.

"Er fy mod i'n siwr mai ceffyl a enillodd", chwarddodd Gwilym yn dawel. Roedd Gwilym wedi gorffen ysmygu tri mis yn ôl, ond nawr roedd eisiau mwgyn arno fe yn ofnadwy.

"Collodd Tre Barri tri - dau yn erbyn Merthyr Tudfyl yn y gêm cynterfynol o Gwpan Cymru heddiw", dywedodd y

TAITH

Mae gen i dipyn o waith cerdded ichi eto, gyfeillion annwyl. Cefais air yn fy atgoffa fod meddyg o Gymro, Dr Eurig Davies, yn ymarfer yng Nghanolfan Iechyd y Tyllgoed. Llongyfarchiadau iddo am roi lle amlwg i'r iaith Gymraeg. Cymro arall yw Dr Roberts sy'n ymarfer yn Llanrhymni.

Newydd gof-io fod gof Cymraeg yn Llysfaen. Rwy'n siwr hefyd fod menter Ffrwyth Pontcanna (yn Stryd Pontcanna) yn dwyn ffrwyth erbyn hyn.




## Y Breuddwyd (Parhad)

cyhoeddwr. "Fe fydd Merthyr Tudfyl yn cwrdd â Chasnewydd yn y gem derfynol dydd Sadwrn nesa. Roedd Abertawe yn chwarae yn erbyn Ton Pentre heddiw, a roedd Idwal Roblin yno, felly drosodd i ..."

"O, damio," dywedodd Gwilym, "dydw i ddim eisiau clywed am Gasnewydd a'r Cwpan Cymru nawr. Rhoi canlyniad y gêm heddiw, er mwyn Duw!"

Dechreuodd ei fysedd chwarae ar ochr y gadair, a roedd ei draed yn symud ac yn gwneud sŵn fel sŵn ei galon. Yn sydyn fe glywodd e lais y cyhoeddwr yn dweud - "Dyma ganlyniad y gêm yng Nghasnewydd..." Nawr, doedd Gwilym ddim eisiau clywed, ac eto, roedd e'n gwybod ei fod e'n gorfod gwrando.

"Casnewydd pedwar..."

"O na!", meddyliodd Gwilym.

"....Caer pedwar", dywedodd y cyhoeddwr.

"Haleliwia!", gweiddodd Gwilym. "Rydw i wedi cael wyth." Dechreuodd e ddawnsio o gwmpas yr ystafell.

"Rydw i'n gallu prynu car newydd a thŷ newydd", meddyliodd Gwilym. "O fe fydd Sara yn falch i glywed pan ddaw hi'n ol o'r siopau."

Dechreuodd e gynllunio beth fydda e'n gwneud gyda'r arian, ar wahan i brynu car a thŷ newydd. Roedd cael gwyliau yn y Rhufain, neu Barbados yn bendant ac wrth gwrs, fe fydda e'n rhoi parti i'w gymdogion a pherthnasau.

"Bydd yn rhaid rhoi arian i'r capel hefyd", meddyliodd Gwilym, "neu fe fydd rhai o'r aelodau yn dechrau dweud pethau cas amdanyn ni."

Fe glywodd e sŵn y drws ffrynt yn agor, a llais ei wraig, Sara, yn galw arno fe. Fe benderfynodd e i fod yn hunan-feddiannol. Fe ddaeth Sara i mewn gyda gwên ar ei gwyneb.

"Gwilym, rydw i newydd ddarganfod fy mod i wedi achub tipyn bach o dy arian di", dywedodd hi.

"Wel, mae gen i newyddion da i ddweud wrthyt ti hefyd", dywedodd Gwilym.

"Rwy'n falch i glywed, ond gaf i ddweud fy newyddion i'n gyntaf?", gofynnodd hi.

"O'r gorau", atebodd Gwilym.

"Wyt ti'n cofio rhoi llythyrau i fi i'w postio dydd Iau diwethaf?", gofynnodd hi.

"Ydw", atebodd Gwilym yn ddrwgdybus.

"Wel, rydw i newydd eu darganfod nhw yn fy nghot law, a rydw i'n gweld mai un i'r gwmni pwls ydy un ohonyn nhw. Felly, rydw i wedi achub dy arian achos dy fod ti fyth yn ennill", dywedodd Sara yn hapus.

Dechreuodd Gwilym deimlo'n sal. Roedd o eisiau gweiddi, ond fe benderfynodd e beidio â gweiddi arni hi.

"Beth ydy dy newyddion di?", gofynnodd Sara.

"O... dim byd! Dim byd!", atebodd Gwilym mewn llais gwan.

"Beth sy'n bod? Dydych chi ddim yn edrych yn hapus", gofynnodd hi.

"Roeddwn i wedi bod yn breuddwydio, ond rydw i wedi deffro nawr", atebodd e.

"Mae'n rhaid i ti beidio â breuddwydio Gwilym!", dywedodd Sara. Doedd Gwilym ddim yn gallu ateb. Roedd e'n teimlo fel wylo.

PEDR AP CYNON

## Colofn Sbectol SIAN *

Mwy o enwau erbyn y mis nesaf, os gwelwch yn dda (gweler y Golygyddol).

yn ddiweddar ac ar ôl hir bendroni gofynnodd, "Sgwn i beth yw ystyr y llythrennau A.N.A.B.L.?" !!

GWAITH

Derbyniais gerdyn yn hysbysebu Cwmni Tacsi'r Castell, Stryd Westgate. Roedd y cerdyn yn uniaith Gymraeg. Felly, os ydych chi'n bobol tacsi, cofiwch am y cwmni hwn sy'n parchu'r Gymraeg a ffoniwch 394928 neu 394929.

ANOBAITH

Cyn gorffen â hyn, fe ddyliwn ychwanegu fod rhoi'r Gymraeg uwchben neu o flaen y Saesneg yn beryglus dros ben, yn ôl y Swyddfa Gymreig. Dyma esiampl, gyda llaw, o ddwyieithrwydd y corff anrhydeddus hwnnw.

| | |
|---|---|
| WELSH OFFICE | Y SWYDDFA GYMREIG |
| WHITEHALL | WHITEHALL |
| LONDON SW1A 2ER | LONDON SW1A 2ER |
| 01-930 3151 | 01-930 3151 |

IAITH

Sawl un ohonoch sydd wedi sylwi ar y bathodyn oren sydd wedi ymddangos ar lawer i gar yn ddiweddar? Darllenais erthygl ddiddorol yn son am y rhain. Dechreuodd fel hyn: "Os oes un o'r sumbolau hyn ar fathodyn oren arbennig, gallwch barcio ar linellau melyn dwbl weithiau - a chaiff neb eich cyffwrdd am hynny!" Rwyf yn cael pwcs o'r crudcymalau o dro i dro ....tybed...m..m.

Dyliwn ychwanegu (dyma oedd pwynt rhoi'r hanes, a dweud y gwir) fod y geiriau ANABL a DISABLED yn ymddangos gyda'r dyn bach yn ei gadair olwyn ar y bathodyn hefyd, gyda'r Gymraeg uwchben y Saesneg. Da iawn. Ac eto - gwelodd ffrind i mi fathodyn

GOBAITH

Llwyddiant eto i Golofn Sbectol Siân! O fewn wythnos i mi dynnu sylw'r byd at gamsillafu'r gair "meithrin" yn y cyfarwyddiadur teleffon, daeth llyfr newydd sbon danlli i'r tŷ - gyda'r sillafiad cywir. Dyna beth yw gwasanaeth dosbarth cyntaf!

AFIAITH

Rhaid i'r gair olaf fynd i Hywel Gwynfryn. Glywsoch chi 'ngwas i yn defnyddio jôc Sbectol Siân ar ei raglen? Roedd y cariad yn ddigon o jentlmyn i ddweud mai o'r Dinesydd y cafodd hi hefyd. Rhyngoch chi a fi, ynte, buaswn wedi mynd ar fy llw mai ar "Helo, Sut 'Da Chi" y clywais i hi gyntaf. DDAT'S SHO BUSNES!

Sain

LLENWCH EICH HOSAN, A HOSAN EICH FFRINDIAU, GYDA RECORDIAU NEWYDD SAIN....

SAIN 1017 M - SIDAN "Teulu Ynel Sam"
SAIN 1034 M - EDWARD H. DAFIS "Ffordd Newydd Eingl-Americanaidd Grêt o Fyw"
SAIN 1021 M - MYNEDIAD AM DDIM "Wa McSpredar"
SAIN 1033 D - MARY LLOYD DAVIES

heb son am y lleill!

A chofiwch am ein TOCYNNAU RECORDIAU CYMRAEG - yr anrheg ddelfrydol

*NADOLIG LLAWEN! — YNG NGHWMNI SAIN*

SAIN, Ffordd Llanllyfni, Penygroes.

# "Dramatis Personae"

**Mae problemau niferus ynghlwm wrth theatr fywgraffyddol. Pa mor agos y dylai'r dramodydd gadw at y ffeithiau sy'n hysbys? Sut y dylid dethol digwyddiadau arbennig allan o fywyd cyfan? (Mae hon yn grefft arbennig ynddi ei hun gan fod cynfas y dramodydd bywgraffyddol gymaint yn fwy cyfyng nag eiddo'r cofiannydd llenyddol.) Os bu'r cymeriad fyw o fewn cof cyfoes, pa faint mwy anodd yw'r broblem?**

Yma yng Nghaerdydd, yr ydym newydd gael cyfle i weld dwy ymgais ar gyflwyno cofiant yn y theatr gyda pherfformiad y *Welsh Drama Company* o "Aneurin Bevan: Struggles against the Iron Heel" gan David Illingworth, a chyflwyniad Cwmni Theatr Cymru o ddrama Eigra Lewis Roberts, "Byd o Amser".

Pwnc "Byd o Amser" yw bywyd Ann Griffiths, yr emyneddes a'r cyfrinydd a ffeiriodd ormodiaeth gwyllt ei hieuenctid a'i charwr bydol am garwriaeth gyda Christ; mae ei hemynau barddonol yn adlewyrchiad o'r angerdd a'r nwyd yma. Serch hynny, ychydig iawn o'r angerdd hwn a dreiddiodd drwodd i'r llwyfan. Ni rydd cyflwyniad ffeithiol o ddigwyddiadau yr un mewnwelediad i gymeriad Ann; er enghraifft, cysylltir ei throedigaeth syfrdanol yn drwsgl braidd â phwl gwael o grudcymalau ac ni cheir fawr fwy o oleuni na hynny ar y mater. Mae anhawsterau gwthio cymaint o ddigwyddiadau ag sy'n bosibl i mewn i'r ddrama wedi arwain, o reidrwydd, at adeiladwaith episodig a thameidiol, tuedd a bwysleisir yn fwy fyth gan y defnydd didrugaredd a wneir o lwyfan-tro.

Er gwaethaf ei llyffetheirio gan wig erchyll, gwnaeth Lisabeth Miles ymgais lew i roi rhyw sylwedd i Ann, a rhoddodd Dyfan Roberts ddehongliad meddylgar i gymeriad John Penfigyn; fe'u cefnogwyd yn ddigonol gan weddill y cwmni a ymdrechai i wneud rhywbeth credadwy o gasgliad o gymeriadau cardfwrdd. Y mae bob amser yn arwydd gwael pan allanolir cymhlethdodau mewnol y meddwl drwy "leisiau yn y pen" a daeth y ddrama i ben gyda'r union ddyfais hon a gynigai gipolwg dryslyd yn ôl dros feddyliau Ann yn y gorffennol, heb ddod i'r un casgliad amdani hi fel merch ac fel awdur. Mewn oes o ymwybyddiaeth gynyddol o natur benywdod, dylsai fod wedi bod yn bosibl archwilio ymdrechion Ann i'w hailddiffinio ei hun, ac i ryddhau ei theimladau, mewn ffordd a fyddai wedi rhoi i ni ryw fewnwelediad i'w chymeriad.

Yn ei bortread o Aneurin Bevan, dywedodd David Illingworth yn y nodaiadau rhaglen ei fod yn fwriadol wedi anwybyddu bywyd personol y dyn er mwyn canolbwyntio ar ei ddatblygiad gwleidyddol. Drwy wneud hynny, rhyddhaodd Illingworth ei hun o gyfyngiadau gosod ei gymeriadau yn y math o gyd-destun hanesyddol-realistaidd sy'n hoff gan Eigra Lewis Roberts; ar yr un pryd, roedd hyn yn ei esgusodi rhag rhoi unrhyw ddyfnder i'w brif gymeriad. Canlyniad y rhaniad mympwyol hwn rhwng bywyd cyhoeddus a bywyd preifat dyn oedd gwneud y ddrama yn ddim byd mwy na phroses o adrodd dyfyniadau a sloganau o yrfa wleidyddol Nye Bevan a'i gyfoeswyr, mewn gofod gwag; hynny yw, sŵn heb ystyr, gan na chaniateid i ni wybod dim byd am bersonoliaeth y dyn a ynganai'r seiniau, na pha beth yn ei gymeriad a oedd yn esgor ar seiniau o'r fath.

Wrth iddo wrthod enwi'r un o'r cymeriadau eraill yn uniongyrchol (am ryw reswm dirgel), roedd yr awdur yn cymryd yn ganiataol fod ei gynulleidfa yn gwbl hyddysg ynglŷn â'r holl gefndir perthnasol a gellid disgwyl wedyn y byddai'n defnyddio'r rhyddid hwn i daflu goleuni ar y cymeriad unigryw hwn, a rhoi persbectif newydd arno. Y fath obaith ofer! Gwnaeth Colin McCormack, a gafodd bob cyfle i annerch y gynulleidfa yn huawdl, ryw gymaint o argraff fel Bevan ei hun ond am weddill y cwmni, na ddisgwylid iddynt ond dod i'r llwyfan, adrodd ei "syniadau" a mynd allan yn ddestlus heb syrthio dros y dodrefn - dyna'r union a wnaethant, a dim byd mwy na hynny. Dylid dadrithio Mr Illingworth yn fuan iawn ynglŷn a'r syniad fod rhaffu blodeugerdd wleidyddol o'r math hwn ynghyd yn unrhyw fath o gelfyddyd greadigol cyn iddo wneud niwed pellach.

Oherwydd mae niwed yn cael ei wneud gan ddigwyddiadau o'r fath. Y nodweddion sy'n cysylltu Ann Griffiths ac Aneurin Bevan â'i gilydd yw unplygrwydd eu hamcanion, dioddefgarwch a dyfalbarhad. Yr hyn sy'n drist ynglŷn ag "Aneurin Bevan" a "Byd o Amser" yw y collwyd cyfle, yn y ddau achos, i ailddehongli cymeriad tu hwnt o afaelgar, sy'n dal yn berthnasol o genhedlaeth i genhedlaeth, mewn dull creadigol; yr hyn sy'n eithriadol o drist yw y gall y ddau fethiant hyn atal awduron eraill rhag rhoi cynnig arni yn y dyfodol. Ymddengys i mi os nad oes gan ddramodydd rywbeth i'w ddweud drwy gyfrwng y deunydd a ddefnyddir i greu drama, neu am y deunydd hwnnw, y dylai roi'r gorau iddi cyn dechrau.

Ms. BLODYN



*Colin McCormack (Aneurin Bevan) ac Ursula Mohan (Jean Binns) yn ANEURIN BEVAN - STRUGGLES AGAINST THE IRON HEEL.*

Llun Welsh Drama Co.

# Paradwys Geltaidd

Cyfrol hardd dros ben yw *Women of the Celts*, cyfieithiad i'r Saesneg o gyfrol Ffrangeg yr Athro Jean Markale, Llydawr sy'n Athro Hanes Celtaidd ym Mhrifysgol y Sorbonne. Mae'r Athro Markale yn gryf o blaid rhyddfreiniad i ferched a phriodola'r rhan fwyaf o broblemau cymdeithasol y byd sydd ohoni i safle israddol merched yn y byd hwnnw.

Amcan Markale yn y gyfrol hon yw dangos fel y mae hen chwedlau a mutholeg y Celtiaid, er eu newid a'u gŵyrdroi dros y canrifoedd, yn y bôn yn adlewyrchu cymdeithas fwy cydnaws a gwâr y Celtiaid - cymdeithas y gellir gweld olion ohoni mor ddiweddar â chyfnod y Cyfreithiau Cymraeg. Datblygodd hon o gymdeithas fatriarchaidd fwy hynafol fyth ac ynddi, cai'r ferch gyfle i fyw fel person, mewn cytbwysedd a chydraddoldeb â'r gŵr, a dibynnai i raddau ar gof isymwybodol y genedl am gyfundrefn o grefydd lle addolid y Fam-dduwies yn hytrach na duw gwryw.

Dengys fod cymeriadau'r gwragedd mewn cymaint o chwedlau yn dal i ddangos nodweddion y duwiesau a fuont cynt, cyn eu diraddio'n wragedd (rheibus, cnawdol a pheryglus, gan amlaf) gan ofynion y gyfundrefn batriarchaidd fydeang. Wrth i honno ddatblygu, disodlodd yr hen dduwiesau a rhoi duwiau yn eu lle, oherwydd ofn a chenfigen dyn o allu cynhenid gwraig i atgynhyrchu.

Yn anffodus, mae'r llyfr yn tueddu i droi'n broses ddiddiwedd o ddadansoddi pob chwedl bron ar sail rywiol bur, gyda thraethu helaeth ar ystyr rywiol y marchog yn treiddio i'r ogof gyfrin, y dreigiau y mae'n rhaid iddo eu lladd cyn gallu gwneud hynny..., ac ati, ac ati.

Sut bynnag, pawb i'w obsesiwn. Mae hon yn gyfrol hynod o ddiddorol, p'run bynnag ac yn cynnwys toreth o chwedlau sy'n ddiddanwch ynddynt eu hunain - a does dim rhaid derbyn damcaniaethau Markale cyn gallu eu mwynhau!

*"Women of the Celts" gan Jean Markale. Gordon Cremonesi. Pris £6.50.*

**Oriel**

53 Heol Siarl Caerdydd
Teliffon: 0222 395548

*Recordiau newydd*

*ar gael yn awr:*

HERGEST : Glenceri
Caneuon Sion a Sion
Caneuon Rhwng Gŵyl a Gwaith
Ganwyd Crist i'r Byd. Plant ysgol Glanclwyd
Holl recordiau Max Boyce
Jigsöau Bychain - 36c
Casgliad llawn o Lyfrau Cymraeg

*Darlleniadau awr ginio:*

RHAGFYR 2 AIL - 1.00—2.00p.m.
Einir Wyn Jones & Alan Llwyd.

# DAU GYNTAF

Am y tro cyntaf, bydd Darlith Flynyddol swyddogol Adran Efrydiau Allanol Coleg y Brifysgol, Caerdydd yn un Gymraeg. Mae Dr Thomas Parry wedi cytuno i draddodi'r ddarlith a bydd yn gwneud hynny fis Mai nesaf yn yr Arena yn Theatr Sherman, Caerdydd.

Am y tro cyntaf hefyd, cyflwynir gwobr gan yr Adran am draethawd Cymraeg, sef Gwobr D.E. Evans. Y mae'r wobr hon, a gyflwynir yn flynyddol er cof am Mr D.E. Evans (y person cyntaf i'w benodi'n Diwtor i ofalu am Efrydiau Allanol yng Nghaerdydd) yn dod o gronfa a sefydlwyd gan fyfyrwyr a thiwtoriaid yr Adran Efrydiau Allanol a Chymdeithas Addysg y Gweithwyr. Rhoddir gwobr o £30 yng Nghystadleuaeth 1975/76 am draethawd ar y pwnc:

"Astudiaeth Feirniadol o Farddoniaeth T.H. Parry-Williams"

Y mae'r gystadleuaeth yn agored i aelodau dosbarthiadau allanol Coleg y Brifysgol, Caerdydd, a dosbarthiadau Cymdeithas Addysg y Gweithwyr; dylid danfon y traethawd at Y Cyfarwyddwr, Adran Efrydiau Allanol, 40 Heol y Parc, Caerdydd erbyn Mawrth 31ain 1976.

## Miri'r Nadolig

Bydd erthygl ar y cwmni tegannau adnabyddus, Miri Cymru, yn rhifyn mis Rhagfyr, yn barod at y Nadolig.

siop y triban

- Yr unig siop ag ynddi restr lawn o Gardiau Cyfarch Cymraeg.
- Y detholiad gorau yng Nghaerdydd o lyfrau Cymraeg a llyfrau am Gymru.

11 Wyndham Arcade,
Caerdydd
Ffôn : 30042

# Llythyr a ddaeth

COUNTY OF SOUTH GLAMORGAN

EDUCATION OFFICES KINGSWAY CARDIFF CF1 4JG
Director of Education: F. J. Adams
Replies should quote reference: GST/MAL
Telephone: Cardiff 31033 ext: 631

*DEAR SIR,*

*I refer to your letter dated 10 September regarding the publicity for Leisure Plan.*

*You will be aware that it is the policy of the County Council to publish such advertisements and information in English, and indeed the printing costs of bilingual publicity would be prohibitive. By diverting resources into the teaching of Welsh rather than publicity in Welsh we feel that in the long term we shall be doing a greater service to the Welsh-speaking people.*

*Yours sincerely,*

*F.J. ADAMS*

**Atebodd ein gohebydd lythyr Mr Adams heb flewyn ar ei dafod, yn y modd a ganlyn:**

*ANNWYL MR ADAMS,*

*Diolch am eich ateb dyddiedig Medi 22ain ynglŷn â hysbysrwydd a chynnwys eich Cynllun Hamdden.*

*Gaf i awgrymu'n garedig bod yna resymu gwallus yn eich ateb. Wrth ddarparu dosbarthiadau* dysgu'r *iaith Gymraeg, cynnig gwasanaeth i'r Cymry di-Gymraeg a Saeson etc. yr ydych chi, nid i'r Cymry Cymraeg, hyd yn oed yn y tymor hir.*

*Wnewch chi ystyried, os gwelwch yn dda, leied, os dim o gwbwl, ydy'ch nifer dosbarthiadau testunau eraill sy'n defnyddio Cymraeg fel cyfrwng?*

*Hefyd mae'n hen bryd i'ch Adran chi ildio i gais pobl tebyg imi am gydnabyddiaeth o'r Gymraeg yn eich cyhoeddusrwydd, ar unwaith, cyn diwedd 1975, os gwelwch yn dda.*

*Byddai'n beth da i'ch dosbarthiadau Cymraeg eich helpu i ysgrifennu llythyr Cymraeg mewn ateb i lythyr Cymraeg, a rhoi ystyr i'ch amddiffyniad gwan, eich bod yn cynnal dosbarthiadau Cymraeg; cyflawnwch ystyr eich addysg, wir!*

*Byddaf fi ac eraill yn disgwyl cyfnewidiadau, er tegwch i bawb.*

**Disgwyliem yn eiddgar am ddatblygiadau pellach; megis ateb Cymraeg i'r llythyr hwn? Ond na......**

*DEAR SIR,*

*I acknowledge receipt of your letter of 2 October concerning the provision of Adult Education through the medium of Welsh. I regret that you find certain aspects of our policy unacceptable.*

*You may not be aware that there are classes provided through the medium of Welsh at two Adult Centres - Whitchurch and Radyr - and that last year an attempt was made to extend this to a range of classes in the Radyr area, but the poor response resulted in closure.*

*Every Centre Principal would welcome approaches from groups who wish to undertake instruction through the medium of Welsh and this has been indicated to all of those people who have contacted the authority.*

*F.J. ADAMS.*

Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru.

# Ysgol Bryntaf

Aeth nifer o blant o ysgol Bryntaf am wythnos o wyliau i'r Gogledd yn ddiweddar ac wedi iddynt dychwelyd, dyma fynd ati i gofnodi rhai o'u hargraffiadau am y lleoedd a'r pethau a welsant. Drwy garedigrwydd eu hathrawes, Mrs Rhiannon Evans, dyma ddetholiad byr o rannau o'u hysgrifau.

Roedd hi'n amlwg fod ymweld ag Arfon yn brofiad newydd a chyffrous i'r plant a'u bod yn gweld pethau'n ddieithr iawn ar ôl bywyd yn y ddinas. Er enghraifft, wrth ymweld â Rhyd-ddu, roedd nifer yn teimlo er mor braf oedd cael gweld hen gar tref Syr T.H. Parry-Williams nad dyna'r lle iddynt hwy o gwbl. Dyma Melfyn Hopkins yn ysgrifennu: *"Ar ddydd Sul aethom i Ryd-ddu, y lle yr oedd Syr T.H. Williams wedi cael ei eni. Yr oeddwn yn edrych ymlaen yn fawr iawn i weld ei dŷ ynghanol y mynyddoedd. Nid oedd llawer o le yno ac yn wir byswn i ddim yn hoffi byw yn Rhyd-ddu am fod ddim llawer o le yn y tai ac yr oedd y pentref filltiroedd i ffwrdd o'r dre."* A Sioned Elias wedyn: *"Byddwn i ddim yn hoffi byw mewn lle fel yna. Os byddem yn byw yno byddai dim llawer o ffrindiau yno a byddwn yn unig."*

Ond gwelwyd llawer o bethau diddorol - dyma Mair Griffiths yn disgrifio tipyn ar y chwareli. *"Un ohonynt oedd Chwarel Dorothea yn Nyffryn Nantlle. Twll yn y ddaear yw'r chwarel. Mae'n segur ers pum mlynedd, mae'r dŵr wedi llenwi dwy ran o dair o'r twll erbyn hyn. Roedd ei olwg yn ddychrynllyd....... Mae yna stori am ddyn â chorn mawr y band yn digwydd cwympo i lawr ochr y chwarel wrth gerdded adre o bractis côr, a'r corn yn clymu ar frigyn o goeden a'r dyn yno drwy'r nos yn hongian. Mae yna stori arall am ddarn o ffordd yn disgyn i'r twll chwarel ar ôl i'r bws ola ar nos Sadwrn basio ar y ffordd o Ben y Groes i Nantlle. Fe welson ni'r twll mawr, dwfn hwnnw."*

Yna, cafwyd siwrne i fyny'r Wyddfa - wel, gadewch i Betsan Powys ddisgrifio'r daith: *Fe ddylech ein gweld y bore hwnnw, pawb wedi ei gwisgo fel yr 'Abominable Snowman'! Esgidiau cryfion am ein traed a menyg am ein dwylo. Roedd rheolau pendant am gadw at y llwybrau, peidio rhedeg a chadw oddi wrth y dibyn. A phwy oedd yn y blaen ond ein prifathro dewr a mentrus! Roedd yn rhaid aros bob hyn a hyn i glywed am olion oes yr iâ a sôn am y llynnoedd a hen hanesion am y mynyddoedd..........Roedd doctor wrth law felly doedd ddim eisiau poeni am gael niwed. Ni fu yn rhaid i un plastar bach gael ei dynnu allan o fag y doctor unwaith, dyna lwc. Ac yntau wedi cario'r bag gydag ef i bob man."* Ond daeth cwmwl dros y diwrnod hwnnw gyda'r hanes fod merch fach chwe mlwydd oed ar goll ar y mynydd. *"Teimlais lwmp yn fy ngwddf,"* meddai Anwen Morris. *"Roedd fy nghalon yn fy ngheg. O gobeithio a gobeithio nad oedd hi wedi marw yn yr oerni. Roeddwn yn meddwl gyda 'nghalon bob eiliad o'r dydd."*

Un o uchafbwyntiau'r gwyliau oedd ymweld â Nant Gwrtheyrn - ac unwaith eto, dyma'r plant at ei gilydd yn anniddig ac yn ofnus braidd yn y fath le. Cymysg oedd teimladau Manon Jenkins: *"Roeddwn yn teimlo'n gyffrous wrth i'r bws aros. Roedd yn deimlad rhyfedd yn cerdded i lawr y llwybr unig a gweld y môr yn torri ar y creigiau, a'r adfeilion o'r tai ar waelod y Nant, a chofio'r stori ofnadwy."* Roedd Nant Gwrtheyrn yn codi braw ar Sioned Geraint : *"Rhywsut doedd yr adfeilion ddim wedi chwalu gymaint ag y buaswn wedi meddwl ar ôl bod yn wag am gymaint o amser ac achos hynny roedd rhyw ias ofnadwy yn mynd wrth syllu lawr ar y lle."* Ond hwyrach mai Paula Knight sy'n llwyddo i ddisgrifio naws y fangre orau mewn ychydig o eiriau: *"Roedd Nant Gwrtheyrn ddim yn edrych yn gyfforddus iawn. Roedd yn teimlo fel petae'r byd ddim eisio i Nant Gwrtheyrn fod yno. Hoffwn i ddim byw yna."*


## Rhaglenni Newydd i blant Cymru o'r Ganolfan Deledu Caerdydd.

DYDD MAWRTH

Fyny Fanna 4.25 pm i'r plant lleiaf

DYDD MERCHER

Rhifeddodau 4.25p.m. i blant rhwng 6-11 oed

DYDD IAU

Ble yn y byd......? i blant rhwng 11-14 oed

DYDD GWENER

Stesion Cantamil Yr hen ffefryn i blant ysgolion cynradd.

*Gwybodaeth, sialens a difyrwch gan*

HTV CYMRU WALES


*CYMDEITHAS GELFYDDYDAU GOGLEDD CYMRU*
*NORTH WALES ARTS ASSOCIATION*

**CYSTADLEUAETH BARDDONI**
**PONT MENAI 1826/1976**

I nodi trydydd Jiwbili agor Pont Menai cynigir gwobr o £50 gan Gymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru am y gerdd orau (caeth neu rydd) heb fod dros 40 llinell ar y testun *Pont Menai.*

*Beirniad* Gwilym Tilsli

Ni chaniateir unrhyw ohebiaeth ynglŷn â'r gystadleuaeth a bydd dyfarniad y beirniad yn derfynol. Bydd y Gymdeithas yn cadw'r hawl i un cyhoeddiad o'r gerdd fuddugol.

Anfoner y cerddi, gyda ffugenw, i D. Llion Williams, Ysgrifennydd, Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru, 10 Ty Cae Ffynnon, Bangor, ynghyd ag enw a chyfeiriad yr ymgeisydd mewn amlen wedi ei selio, i gyrraedd erbyn Rhagfyr 17eg 1975.

**Gan na fydd rhifyn o'r *Dinesydd* ym mis Ionawr, dylid danfon manylion ynglŷn â digwyddiadau ym mis Rhagfyr a *mis Ionawr* ar gyfer y rhifyn nesaf o'r papur. Manylion erbyn RHAGFYR 3ydd at:**
**Sian Edwards (Golygydd),**
**66 Heol Maendy,**
**Cathays, Caerdydd.**


## Hen Lyfrau yn eisiau

HEN NEU AIL-LAW
HEFYD CYLCHGRONAU A PHAPURAU

Gallwn alw i'w gweld.

**Siop y Pethe**
Aberystwyth
Dyfed

Ffôn 7120


## Cymry Iach

Mae Grwp Cymru Iach newydd gyhoeddi argymhellion ar gyfer sefydlu Comisiwn Iechyd i Gymru. Casgliad o unigolion sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru yw'r Grwp; maent yn poeni am gyflwr y Gwasanaeth yng Nghymru am ei fod o dan reolaeth uniongyrchol y Swyddfa Gymreig. Mewn datganiad, dywedant fod ymddiried rheolaeth ymarferol y Gwasanaeth Iechyd i gorff sydd hefyd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau polisi gwleidyddol yn arwain at wrthdaro ac ansicrwydd yn y Gwasanaeth.

# YR URDD : Dosbarth Caerdydd

Bydd panel yn cyfarfod yn fuan i drefnu Gwasanaeth o Fawl i ddathlu'r Nadolig. Gwahoddwn bob adran ysgol neu 'bentre' o fewn y dosbarth i anfon aelodau i'r gwasanaeth hwn. Anfonir manylion pellach i'r adrannau yn union wedi hanner tymor.

Penderfynwyd hefyd i weithredu cynllun yr Ysgrifennydd i gynnal wythnos o Noddi Sillafu. Bydd yr ymdrech hon yn rhoi cyfle i'r aelodau i wella eu gwybodaeth o'r Gymraeg yn ogystal ag estyn cymorth i gynnal y Ganolfan yn Heol Conwy. Mae'r pwyllgor wedi argymell hefyd y dyddiadau a ganlyn ar gyfer yr Eisteddfodau Cylch - y Gorllewin, Mawrth 20fed, y Dwyrain Mawrth 27ain.

Gofynwyd i'r canlynol i weithredu fel swyddogion am y flwyddyn 1975-76.
Cadeirydd: Garwyn Davies;
Is-gadeirydd: Cyril Davies;
Ysgrifennydd: Catrin Davies;
Is-ysgrifennydd: Rhian Owen
Trysorydd: Alun Preece.

Mae rhaglen aeaf yr ysgolion cynradd yn mynd rhagddi ac mae croeso i unryw arweinydd ddod â grwp o blant i ymuno yn y gweithgareddau yn y Ganolfan.

Tachwedd 17eg - Dawns Werin; Rhagfyr 1af - Bingo Rhagfyr 15fed - Parti Nadolig.




# LLAM LLYFFANT I'R URDD

**Cafodd llawer o bobl sioc mawr ym Mharc y Rhath brynhawn Sul, Hydref 19eg, pan welson nhw ddau ddwsin o goesau siapus yn perthyn i ddeuddeg merch siapus o Ysgol Howell's Llandaf a oedd yn gwneud llam llyffant i godi arian i'r Urdd. Creuon nhw ddiddordeb mawr wedi gwisgo yn eu hosannau rhesog, trowsus cwta a chrysau rygbi ac ymunodd rhai pobl eraill gyda nhw weithiau. Ar ôl dwy awr, 'roedd y merched yn gwybod eu bod nhw wedi codi £60 drwy eu hymdrech, ac er bod rhai ohonyn nhw wedi ei ffeindio yn galed, llwyddodd pawb i ddal ati am y ddwy awr. Roedd meddwl am y £60 yn ddigon i wneud fyny am y coesau stiff fore Llun.**

# Cipio'r Castell

Nos Wener, Tachwedd y seithfed, cafwyd noson i'w chofio yng Nghastell Caerdydd. A bod yn fanwl gywir, noson y gwragedd oedd hi, achos uchafbwynt y noson oedd perfformiad o basiant o waith Mrs Eleri Rogers yn rhoi darlun o'r ferch yng Nghymru drwy'r canrifoedd. Gan y gwn pa mor beryglus y gall y rhyw deg fod, af fi ddim i enwi neb, dim ond dweud fod graen ar y perfformiad a bod sawl golygfa'n dra chofiadwy! Roedd yn werthfawr i unrhyw un sy'n ymddiddori yn hanes ei wlad. Mae'r pasiant yma'n haeddu sylw ymhell y tu hwnt i'r brifddinas.

Roedd côr penillion Caerdydd yno hefyd, a pharti'r Wenallt, a Mona Meirion gyda'i thelyn. Pob un yn perfformio gydag urddas, ac yn llwyddo i blannu ysbryd gwir Gymreig rhwng muriau'r castell. Roedd y gwragedd wedi paratoi lluniaeth ar gyfer pawb, a rhoes yr egwyl gyfle i bawb gael clonc a sgwrs.

Bydd yr elw'n mynd i gronfa mil o filoedd yr eisteddfod genedlaethol, ac o gofio hyn, roedd hi'n drist na ellid bod wedi llenwi pob sedd yn y neuadd ginio yn y ddinas. Wn i ddim pwy fydd wrth yr awenau pan ddaw pwrs agored yr eisteddfod i lyncu arian, ond fe fydd rhaid i ni, ddinasyddion, dalu llawer mwy o sylw i'n "pethe" os ydym yn mynd i fedru peri i'r ŵyl yn y ddinas dalu'r ffordd. Rwy'n siŵr fod ymateb pobl i'r gweithgareddau a drefnir ar eu cyfer yn destun cryn bryder i'r pwyllgor lleol.

**Os hoffech gael sgwrs yn Gymraeg wrth chwilio am ddarnau sbâr i'ch car, ymwelwch â:**

**METELAU LLANDOW**

**(ar Ystâd Fasnachol Llandow, ger Llanilltud Fawr) a gofynnwch am Mr John Pugh.**

**Mynwent o gerbydau a mynydd o sgrap!**
**RHIF FFÔN:**
**LLANILLTUD FAWR 2756**

MOUNT SORREL

HEOL PORTHCERI
Y BARRI, DE MORGANNWG ☎ 3600

** A.A. R.A.C.

GWESTY GYDA 40 O YSTAFELLOEDD GWELY.
(35 Gyda ystafelloedd ymolchi preifat.) Teledu, Radio etc. ymhob ystafell.


CYNADLEDDAU
PRIODASAU
CINIO A DAWNS

GWYLIAU GAEAF £11.50 + T.G. am benwythnos

Cinio dydd Sul 12.30 - 2.00p.m.

Ystafell fwyta a bariau cyhoeddus

# NEWYDDION CWM RHYMNI



## CYMDEITHASAU CYMRAEG

Er gwaethaf jôcs Moi Parri, roedd Noson Lawen cangen Caerffili o UCAC yn rhaglen y Gymdeithas Gymraeg yn llwyddiannus iawn! Da oedd gweld fod cymaint o bobl dalentog yn y cylch. Cynigiwyd diolch gan Mrs Susie Williams, a chyfeiriodd hithau'n arbennig at eitem gan gantores ifanc, Barbara Matthews, sy'n athrawes yn Ysgol Parc Lansbury ac sydd ar hyn o bryd yn dilyn y cwrs Wlpan yng Nghaerffili. Swynwyd y gynulleidfa gan ei chanu a'i hiaith raenus, wedi prin fis yn dilyn y cwrs.

Diddanwyd aelodau Cymdeithas Gymraeg Cwm yr Aber gyda noson gan Gwyn Jones, Ysgol Gymraeg Senghennydd, yn disgrifio'i daith i Ganada yng nghwmni Cor Meibion Pontardulais.

## CYLCH DYSGWYR

Gwahoddwyd Hywel Tilley, disgybl yn Ysgol Rhydfelen, i annerch y Cylch ac i son am hynt a helynt taith gerdded noddedig yr ysgol yr holl ffordd o Bontypridd i Dresaith, a gyflawnwyd gan nifer o ddisgyblion ac athrawon dros gyfnod o bedwar diwrnod. Sicrhaodd y Cylch fod cyflwr ei draed yn brawf iddo gwblhau'r daith! Roedd ail hanner y noson dan ofal Alan Howells a drefnodd sesiwn o bingo wedi'i gynllunio yn arbennig ar gyfer dysgwyr.

## SWYDDOGION

Mewn cyfarfod o Gymdeithas Rieni Ysgol Gymraeg Bargod, etholwyd y swyddogion canlynol: Llywydd, Mrs E. Knight; Cadeirydd, Mr Arwyn Preest; Is-Gadeirydd, Mrs Susan Parry; Ysgrifennydd, Mr Stan Evans; Is-Ysgrifennydd, Mrs Lynne Davies; Trysorydd, Mrs Helen James; Is-Drysorydd, Mr Edgar H. Jones.

## CINIO ANRHYDEDDU

Cynhaliwyd cinio arbennig iawn yng Ngwesty'r Castell, Tredegar, gan rieni, disgyblion, cyn-ddisgyblion a staff Ysgol Gymraeg Rhymni i anrhydeddu Mrs Nansi Jones ar iddi gwblhau ugain mlynedd fel athrawes yn yr Ysgol Feithrin. Fel arwydd o werthfawrogiad ac edmygedd o'i gwaith cyflwynwyd siec am £50 i Mrs Jones ynghyd ag anrheg i'w gŵr, Mr Griff Jones.

## CLOCSWYR

Un o uchafbwyntiau'r Ŵyl Werin a gynhaliwyd ym Merthyr Tudful dan nawdd yr Urdd oedd dawns y glocsen gan dri o ddisgyblion Ysgol Gymraeg Caerffili. Mae'r tri sef Gareth Head, Dylan Rowlands a Richard Lynch yn amlwg yn dilyn yn ôl troed eu hathro, y clocsiwr Randal Isaac.

## TŶ FRY

Fel Jack Jones, Tŷ Fry y mae trigolion Caerffili yn adnabod y cymeriad hoffus hwn, ond John Jenkin Jones yw'r enw a welir uwchben y dôn emyn a gyfansoddodd yn ddiweddar. A'r teitl? Tŷ Fry, wrth gwrs. Nid yw'n honni bod yn gerddor a hon yw'r dôn gyntaf iddo ei chyfansoddi. Ond mae'n ffyddiog y daw yn boblogaidd i'w chanu i'r geiriau "Nef a daear, tir a môr", ac mae eisoes wedi ymddangos yn rhaglenni Cymanfaoedd Canu cylch Caerffili, yn dôn adnabyddus i ddisgyblion Ysgolion Cymraeg yr ardal.

## CWRS GLOYWI

Mae'r dysgwyr a ddilynodd gwrs Wlpan y llynedd yng Nghaerffili yn cael cyfle arall eleni i ail-gydio yn eu gwersi gyda chwrs arbennig ar eu cyfer a gynhelir bob nos Lun yn Ysgol Gymraeg Caerffili dan nawdd Adran Efrydiau Allanol Coleg y Brifysgol, Caerdydd. Y tiwtor ar y Cwrs Gloywi Cymraeg hwn yw Mari Mills, Hendredenny.

## PRIFATHRO NEWYDD

Llongyfarchiadau i Elfan Jones sydd ar hyn o bryd yn Ddirprwy Brifathro Ysgol Gymraeg Bargod ar ei benodi'n Brifathro Ysgol Gymraeg Merthyr Tudful. Bydd yn rhaid i'r Urdd chwilio am ysgrifennydd newydd i Bwyllgor Dosbarth Cwm Rhymni o hyn ymlaen!

## GENI

Croeso cynnes i'r newydd-ddyfodiaid yn ardal Caerffili: Bethan Mair, yn ferch i Gwyn a Margaret Griffiths, Energlyn, a Rhian Fflur, yn ferch i Gareth a Morfudd Huws, Hendredenny.


# Theatr Cymru

yn cyflwyno




ffars newydd W.S. Jones

gyda Harri Bach a Jo
heb son am Y Gyfraith
y Rhyw Deg ac Ifas ei hun

CAERDYDD
THEATR SHERMAN

Nos Sul 7 Rhagfyr am 7.30

Tocynnau £1.25; 90c a 60c o Swyddfa Docynnau'r Theatr (25855)

*Gostyngiadau i bartion*

*Noson i'r Santes Dwynwen*

yng nghwmni Cylch Meithrin Radur a Phentrepoeth

Yn Neuadd Hoskings, Heol Dumballs
am 8 o'r gloch, Ionawr 24ain
Bwyd, Bar a Diddanwch

Tocynnau, pris £1.50 oddi wrth
Mrs B. Roberts, rhif ffôn - 842713.

Llyfrau Newydd Sbon i Blant!

*(am brisiau tua 30% yn rhatach na llyfrau Saesneg cyffelyb!)*

Rhai o lyfrau lliwgar gorau'r byd

TRWYN-HIR Hauff/Hechelmann £1.85
GWENEIRA Grimm/Svend Otto S./Elfan Jones £1.10
YR HET Tomi Ungerer/Elfed Thomas £1.60
ALLUMETTE Tomi Ungerer/Myfanwy Jarman £1.50
Y DDWY FELIN WYNT Reesink/Apol/Elfan Jones £1.40

Dwy o nofelau gorau'n hoes

Y LLEIDR HOTZENPLOTZ Otfried Preussler £1.85
llu o luniau: ar gyfer 7+
DEWIN YM MWMIN-GWM Tove Jansson : tua £2.00
llu o luniau: ar gyfer 8+

GWASG Y DREF WEN
Cyhoeddwyr y plant

*Ail hanner erthygl gan Sara Howell (Walters gynt) ar Colombia lle mae hi a'i gwr Gareth wedi ymgartrefu am flwyddyn tra bod Gareth yn gweithio i'r Swyddfa Lafur Ryngwladol.*

# Y CHWYLDRO TAWEL — NEU GREFYDD Y GWN?

**Er gwaethaf holl ramant Colombia ni ellir ac ni ddylid anghofio mai un o wledydd cyfandir De America a'r Trydydd Byd yw hi. Yng ngogledd dinas Bogota buom yn ymweld â thai chwaethus y bobl gefnog ond wrth gerdded strydoedd y ddinas ar fy mhen fy hun blinder ac angen a welwn ar gynifer o wynebau - y bechgyn bychain ynghwsg neu hanner effro mewn drysau siopau, cleifion yn cardota ar ymyl y ffordd, menywod blinedig gyda phlant ifainc yn llusgo wrth eu hôl yn fy nghymell i brynu rhyw degan rhad neu'r sigarets tragwyddol.**

Yn y trefi mae tlodi yn hunllef o broblem. Heidia pobl yr ardaloedd gwledig yno i edrych am waith na sydd i'w gael. Yn Bogota gwelir eu cytiau truenus yn britho'r llechweddau uwchben y ddinas. Bûm gyda hen ŵr - cyn swyddog yng ngwasanaeth tai'r llywodraeth - yn ymweld ag ystad o dai newydd a adeiladwyd ganddo trwy danysgrifiadau dyngarol ar gyfer teuluoedd digartref. Ond rhan o'r broblem yn unig yw cael tŷ a chysgod. Rhaid cael gwaith ac i'r rhan fwya' does dim i'w wneud ond mynd ati ar ochr y palmant i lanhau 'sgidiau, gwerthu contraband neu ddwyn watsus yr Americanwyr diarwybod. Araf yw'r Llywodraeth i ddatblygu ardal fel hon lle mae'r trigolion eisoes o dan do ac yn mwynhau rhyw fesur o gysur ond mewn angen dybryd am waith a chyflog.

Swyddogaeth SENA, yr adran o'r llywodraeth y bu Gareth yn gweithio iddo, yw ceisio gwella hyn oll. Cefais gyfle i ymweld ag un neu ddau o'r canolfannau hyfforddi technegol ym Medellin lle'r oedd bechgyn ifainc wrthi'n dysgu trin peiriannau gwneud ceir, defnyddiau trydan, cotwm ac yn y blaen. Prif egwyddor cychwynnydd SENA oedd y dylid cael ar gyfer Colombia y math o beirianwaith a allai gynhyrchu nwyddau ar raddfa eang ond a fyddai'n dal i gynnig gwaith i'r boblogaeth. Yn ôl y weledigaeth wreiddiol bu SENA wrthi yn y trefi yn datblygu diwydiant ac yn hyfforddi bechgyn ifainc ar ei gyfer. Bellach mentrodd i'r ardaloedd gwledig i ddechrau ar y gwaith o gyfuno ymdrechion y gwahanol fudiadau gwirfoddol a fu wrthi'n ceisio datblygu pentrefi bychain tlawd ar batrwm y gymuned gydweithredol.

Ym mhentref La Arboleda yn Antioquia dechreuwyd eisoes ar y gwaith o drefnu ugain o deuluoedd yn un uned amaethyddol gydweithredol gan ddyn ifanc a'i wraig a addysgwyd i lefel ysgol uwchradd yn unig. Fe'u cynorthwyir gan yr offeiriad sy'n chwarae rhan flaenllaw a goleuedig ym mywyd y gymuned. Daeth SENA i gysylltiad â'r pentref pan aeth y sefyllfa ariannol a'r diffyg gwybodaeth technegol yn drech na'r pentrefwyr. Gan fod y pentref yn digwydd bod yn rhan o ardal a ddewiswyd gan SENA ar gyfer arolygaeth fanwl eleni, danfonwyd hyfforddwr yno i fyw ymysg y trigolion. Ei swyddogaeth, yn gyntaf peth, yw i astudio a chyflwyno adroddiad ar broblemau ac anghenion y gymuned gan gynnwys yr holl agweddau - amaethyddol, ariannol, cymdeithasol - ar fywyd y gymdeithas. Wedi astudio'r adroddiad fe benderfynir pa un ai all SENA gynnig help ac adnoddau addas ai peidio. Un o brif amcanion yr un sy'n ymgymryd â gwaith cymunedol ar ran SENA yw cael ei dderbyn fel rhan naturiol o'r gymdeithas leol a chymryd ei le fel un all rannu'i wybodaeth trwy helpu a chydweithredu ac nid trwy ddysgu'n uniongyrchol. Os derbynir ei adroddiad a phenderfynu y dylai aros yn y gymdeithas fe fydd yn angenrheidiol iddo dderbyn pob cymorth oddi wrth reolwyr ac adnoddau technegol SENA. Hyd yma ni ddatblygodd y mudiad ddigon o ystwythder yn ei gyfansoddiad i ganiatau cyfnewidiad rhwydd o syniadau ac adnoddau o un adran i'r llall. Yma, ym maes y cynllunio cyffredinol y gall yr arbenigwr estron fod o help.

Mewn pentref arall yn Antioquia cyflwynwyd gan ŵr masnach, a oedd yn enedigol o'r pentref, ddeg ar hugain o beiriannau gwnio er mwyn helpu'r economi leol. Fe gyflogodd y Maer hyfforddwr o SENA i ddysgu'r menywod sut i drin y peiriannau ond cyn belled ni wnaethpwyd unrhyw drefniadau pendant ar gyfer prynu deunydd crai, marchnata a threfnu help technegol ac ariannol. Fe all SENA lanw'r bwlch yn y cyswllt hwn trwy gynnig hyfforddiant cyflawn ar sut i drefnu'r busnes er budd y gymdeithas.

Erbyn heddiw 'does fawr o weithgarwch chwyldroadol yn corddi yng nghelloedd mynyddig y 'guerilleros'. Fe gludwyd y rhan fwyaf ohonynt i'r ddalfa ganol y chwedegau a llofruddiwyd eu harweinydd, Camilo Torres yr offeiriad a synhwyrodd mai'r gwn oedd yr unig ateb i broblemau dyrys gwlad ranedig. Fe gychwynnodd SENA a mudiadau gwirfoddol o bob math ar lwybr hir a blinderus o ddatblygiad graddol ond ar yr un pryd deil y cwmniau masnachol Americanaidd i dynhau eu gafael ar wegil yr economi. Tybed hwyrach nad ysbryd Camilo Torres a'r weledigaeth chwyldroadol sy'n ymgnawdoli'r gwir ateb i angnyfiawnder dybryd Cymdeithas Colombia?



CAMILO TORRES


GORFFWYSWCH - YMLACIWCH



**CERBYDAU WENALLT**

*(Perchennog J.M. CROOKES)*

Cerbydau moethus gyda 20-51 o seddau i'w hurio

**SWYDDFA DOCYNNAU**

**Ffôn Caerdydd 31174**

Gwasanaeth ateb pedair awr ar hugain

WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE, CAERDYDD.

# "Brethyn gwlân y defaid mân....."

**Erbyn hyn y mae gan yr Amgueddfa Werin gasgliad go helaeth o ddillad a wisgid gan drigolion Cymru yn ystod y ddwy ganrif ddiwethaf. Dangoswyd rhai ohonynt yn achlysurol mewn arddangosfeydd yn un o ystafelloedd y Castell. Ond bellach, y mae gennym arddangosfa barhaol yn yr oriel wisgoedd newydd a agorwyd ar ddiwedd Awst. O dro i dro, bydd y dilladoedd yn cael eu newid er mwyn eu cadw mewn cyflwr da.**

Heb yn wybod iddynt bron, diogelwyd y dilladoedd gan wahanol deuluoedd, a rhai dros gyfnod o ddwy ganrif, mewn cistiau a chypyrddau, allan o olwg golau ddydd, pryfed a lleithder. Ein cyfrifoldeb ni yma yn yr Amgueddfa Werin yw diogelu'r rhoddion hyn.

Yn yr oriel wisgoedd, y mae'n rhaid i ni gadw hinsawdd a thymheredd isel a chyson. Nid digon cadw'r haul allan, ond golau ddydd hefyd rhag i'r dillad ddirywio. Felly mae'r oriel hon gyda'i golau trydan arbennig, a hwnnw'n is na'r arfer, yn bur wahanol i'r ddwy oriel sydd drws nesa iddi.

Dylid pwysleisio mai dillad hanesyddol ydynt - hen ddillad felly, ac nid copiau o ddillad hen ffasiwn. Y mae'r defnydd sydd ynddynt yn edrych mor dda, a'r lliwiau mor llachar, fel bod nifer o'n hymwelwyr eisoes wedi meddwl mai dilladoedd o ddefnyddiau modern wedi eu hailgreu ydynt. Y mae rhai amgueddfeydd wedi arddangos gwisgoedd a gynlluniwyd yn arbennig ar gyfer dramau hanesyddol i'w dangos ar y teledu. Y mae cynllun y gwisgoedd hyn yn seiliedig ar ymchwil manwl i hanes y cyfnod. Ond pwrpas Amgueddfa yw gwarchod, astudio a chadw ar gyfer y canrifoedd sydd i ddod.

Miss Mair Rees, Swyddog Gwarchodaeth yn yr Amgueddfa Werin sydd wedi bod wrthi'n paratoi'r gwisgoedd ar gyfer yr oriel. Cafodd hi ei hyfforddi yn y dulliau diweddaraf o'r gwaith o atgyfnerthu defnyddiau.

## Pwy oedd yn gwisgo'r dilladoedd?

Y mae llawer yn credu fod y Cymry wedi gwisgo dim ond gwlanen ar hyd yr oesoedd. 'Roedd dillad o frethyn a lliain yn gyffredin hyd at yr ail ganrif ar bymtheg, y mae'n wir, ond y pryd hynny, dechreuwyd mewnforio sidan a muslin. Yr arfer mewn llawer i deulu oedd gwisgo brethyn cartre ar gyfer dyletswyddau bob dydd a dillad drud ar gyfer digwyddiadau arbennig fel priodas. Yn anffodus, y gwisgoedd o ddefnydd drud a gedwid, gan wisgo'r lleill nes iddynt fynd yn garpiau.

Mewn un cas yn yr oriel newydd dangosir teulu cefnog o'r ddeunawfed ganrif mewn ystafell o furiau a phaneli derw. Ceisir dangos y gwisgoedd mewn cyd-destun sy'n nodweddiadol o'r cyfnod. Yn y cas hwn, y mae'r ddau ddyn yn gwisgo siwtiau, y naill o frethyn gyda brodwaith arian arno a'r llall o dorriad a oedd yn ffasiynol ar ddiwedd y ganrif. Dillad a berthynai i deulu'r Morganiaid a oedd yn byw yn nhŷ Tredegar, ger Casnewydd oedd y cyntaf o'r rhain, ac i ŵr o Gasgwent y perthynai'r llall. Daeth y sidan gŵn o weithdy Spittalfields ac y mae'r gŵn ei hun o dorriad yn y dull Ffrengig 1740. Mrs Humphreys o Lansevern - tŷ mawr yn Aberriw oedd perchen hon. Gwisgid y gŵn o streipen goch a gwyn a welir yn yr un casgliad, gan ferch yng nghyfraith Mrs Humphreys, ac y mae'n dangos y newid a ddigwyddodd i ddillad merched ym 1800.

Y mae'r golygfeydd eraill yn yr oriel yn dangos y newidiadau a ddigwyddodd yn ystod y ganrif ddiwethaf. Troes y ffrogiau syth â gwregys uchel yn ffrogiau â sgertiau llawn. Y mae patrwm syml o flodau ar ddefnydd y wisg sy'n cael ei adlewyrchu yn y papur wal hefyd. Cynllunydd y papur wal oedd Owen Jones, y pensaer o Gymro a gafodd ddylanwad mawr ar garpedi, gratiau a phapur wal.

Y mae'r datblygiad nesaf i'w weld yn y sgertiau sy'n mynd yn llawnach nes eu bônt fel cloch. Er mwyn ysgafnhau'r pwysau yr oedd yn rhaid troi at *crinoline*. Cafodd y Chwyldro Diwydiannol effaith ar liwiau a phatrymau'r defnyddiau, a'u gwneud yn fwy cymhleth. Daeth patrymau cymhleth yn boblogaidd ar bopeth yn y tŷ, gan gynnwys carpedi, papur wal a dodrefn.

Pan aeth maint y *crinoline* yn ormod, fe beidiodd a bod yn ffasiynol a chafwyd y bwstl yn ei lle. Dull trafferthus o gasglu sgert y tu ôl i'r wraig oedd hwn, a cheir enghraifft o hyn yng ngwisg maeres y Trallwng yn saithdegau'r ganrif.

Ym 1890, daeth diwedd ar oes y bwstl hefyd, a datblygodd addurniadau ar flaen y bodis ac ar yr hetiau. Yn yr oriel, gwelir gwisgoedd o Benybont ac o'r Ro-wen ger Conwy ac nid oes wahaniaeth rhyngddynt o ran ffasiwn.

Addurnid sidan neu wlanen â thoreth o les, neu ribannau, ac ochr yn ochr â'r dilladoedd hyn, ceir ambell ŵn o frethyn lliwgar wedi ei dorri yn null gwisgoedd ffasiynol y cyfnod. Ceir ambell i sgert lydan drom yn null y gwisgoedd *crinoline*. Ond yr oeddent yn llawer rhy drwm i gynnal mwy na thair neu bedair o beisiau. Yr oedd gwragedd y ganrif ddiwethaf yn gadarn ac yn ddewr!

Mewn un cas yn yr oriel ceisir dangos hanes y "Wisg Gymreig" - y bais a'r bedgwn. Nid oedd y wisg hon yn ddim byd mwy na gwisg gyffredin Ewrop yn y ddeunawfed ganrif. Dilledyn, y buasem yn ei alw'n sgert heddiw oedd y bais, ac nid dilledyn isaf; pais a wisgid gyda gŵn, fel Mrs Humphreys o Aberiw. Yr oedd dau fath o fedgwn. Yr oedd yna ynau llydan ffurfiol ochr yn ochr â gynau syml addas ar gyfer y rhai hynny a oedd yn gorfod gweithio'n galed. Dyna paham y dangosir merch mewn bedgwn o gotwm yn gweithio yn y tŷ a bedgwn o wlanen ar gyfer y ferch a oedd yn gorfod mynd allan i weithio ar y fferm.

Bu ysgrifenwyr rhamantus ar ddechrau'r ganrif yn disgrifio gwisg y wlad, heb sylweddoli mai gwisg tipyn yn hen ffasiwn oedd hi. Cydiwyd yn y syniad a chyhoeddi ei bod yn wisg nodweddiadol o Gymru. Fe'i gwisgwyd gan delynoresau ac aelodau corau ar lwyfan, ac yno y mae heddiw mewn Eisteddfod ac ar ddathliadau Gŵyl Ddewi.



*Golygfa o'r Oriel Wisgoedd yn yr Amgueddfa Werin.*
Llun Yr Amgueddfa Werin.

GWESTY PLAS MAENAN
MAENAN, LLANRWST, DYFFRYN CONWY.
Gwesty Cymreig Cyntaf Cymru

* NOSON LAWEN draddodiadol gyda bwydydd Cymreig, medd, gwin cartref, difyrrwch gyda'r delyn etc.
* YSTAFELL FWYTA lle cewch fwydydd nodweddiadol a gwasanaeth gyda gwên.
* GWYLIAU GAEAF yn dechrau mis Hydref. £11.50 am benwythnos.
* POB LLOFT gyda ystafell ymolchi breifat, ffôn, teledu, offer gwneud te etc.
* CYMRAEG yw prif iaith Plas Maenan.
* CYFARWYDDWYR Enid ac Alan Wyn Jones, gynt o Riwbeina.

Ffôn : DOLGARROG 232 (Côd - 049269)

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 134 Ffordd Parc Ninian, Caerdydd; ffôn: 18917.*
*Hysbysebu gan Gyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd; ffôn: 396262.*